PWYLLGOR PENODI - PENNAETH PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU

DYDD LLUN, 18 MAWRTH 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bowen-Thomson, Boyle, Huw Thomas, Weaver a/ac Walker |

1 : PENODI CADEIRYDD Y PWYLLGOR HWN

Penodwyd y Cynghorydd Huw Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor.

2 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau

3 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Bowen-Thomson fuddiant personol ond nid un a oedd yn rhagfarnol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas ag Ymgeiswyr 5, 6 a 7. Arhosodd y Cynghorydd Bowen-Thomson yn y cyfarfod wrth ystyried y ceisiadau hyn.

4 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:-

*“Cyflawni swyddogaethau’r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y’u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gyflogaeth a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor”.*

5 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes ganlynol ar y sail, pe bai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, byddai'r wybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y disgrifir isod:-

Paragraff 12 - Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd i ddod yn gyflogai i'r awdurdod;

Paragraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn.

6 : PENODI PENNAETH GWASANAETH, PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU

Ail-ymgynullwyd y Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swydd Pennaeth Gwasanaeth, Perfformiad a Phartneriaethau i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu.

Adolygodd y Pwyllgor y 15 o geisiadau a dderbyniwyd ac ystyriodd sut yr oedd pob un o'r ymgeiswyr yn bodloni'r cymwyseddau hanfodol o'r Fframwaith Cymwyseddau Ymddygiadol a'r Proffil Rôl, a nodwyd yr ymgeiswyr hynny i'w hargymell i fynd ymlaen am Asesiad.

PENDERFYNWYD – bod ymgeiswyr 7, 9, 10, 11 a 15 yn cael eu derbyn i'w hasesu yn ystod yr wythnos yn dechrau 25 Mawrth 2019.

7 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen yr eitem hon.

8 : DYDDIAD Y CYFARDOD NESAF - DYDD LLUN 1 EBRILL 2019 AM 10.30AM YN YSTAFELL GYNADLEDDA'R ARWEINYDD

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 pm